



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Crynodeb o Ddeddf Addysg
Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL (ADY) GWELEDIGAETH STRATEGOL

CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

1 System sy'n galluogi dysgu a datblygu gydol oes i bawb, yn helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol, ac sy'n hygyrch i bawb.

CYMRU LEWYRCHUS

2 System ADY sy'n cryfhau lles economaidd Cymru, yn cydweithio â busnesau, yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr a gweithwyr, ac yn tyfu ein sylfaen ymchwil ac arloesi.

CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS A CHYMRU IACHACH

5 Darparwyr ADY sy'n gymunedau dysgu amrywiol a chydlynus ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

CYMRU GYDNERTH A CHYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

4 Darparwyr ADY sy'n sicrhau'r gwerth cyhoeddus mwyaf ac yn gynaliadwy'n economaidd ac yn amgylcheddol.

CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

3 System ADY hygyrch ac effeithiol sy'n cefnogi dysgu, asesu a chynnydd drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n ganolog i fywyd diwylliannol Cymru.

Beth yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)?

Mae cyd-destun byd-eang sy'n newid yn gofyn am feddwl o'r newydd ac agwedd newydd at rôl sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru, gartref ac yn rhyngwladol.

Bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r sector a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, yn darparu system addysg drydyddol sy'n canolbwyntio at y dysgwr ac sydd â rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad wrth ei wraidd.

Bydd un comisiwn cenedlaethol, gyda chylch gwaith clir ac uchelgeisiol i'w gyflawni ar gyfer dinasyddion, cymunedau a'r genedl, yn darparu dull mwy strategol, cydlynol ac effeithlon. Fel yn yr un modd â'r diwygiadau i gwricwlwm ysgolion, caiff y sector ei gefnogi i helpu dysgwyr i ddatblygu'n ddinasyddion ymrwymedig a mentrus, gan gyfrannu at ffyniant a lles cenedlaethol ac unigol.

Mae'r heriau a grëwyd ar gyfer ein heconomi a'n sector addysg o ganlyniad i Covid-19 yn golygu bod angen y newidiadau a gyflwynir yn y Ddeddf hon ar fwy o frys nag erioed. Bydd dull strategol newydd, gyda a thrwy'r Comisiwn newydd, yn adeiladu ar y cryfderau presennol, yn ehangu mynediad i ddarpariaeth sy'n seiliedig ar ymchwil o ansawdd drwy gydol bywydau dysgwyr, yn hyrwyddo gwelliant a chydweithredu sefydliadol parhaus, ac addysg yn y ddwy iaith genedlaethol mewn sector dinesig a rhyngwladol.

“Bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r sector a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, yn darparu system addysg drydyddol sy'n canolbwyntio at y dysgwr ac sydd â rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad wrth ei wraidd.”

Beth mae'r Ddeddf yn ei gynnig?



SEFYDLU'R COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL

Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Y bwriad yw sefydlu'r Comisiwn yn 2023 a fydd yn gyfrifol am strategaeth, cyllid a goruchwyliaeth o'r sectorau canlynol:

- Addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion
- Addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant

Bydd gan y Comisiwn Fwrdd a Phrif Weithredwr. Bydd y Bwrdd yn cynnwys aelodau cyswllt fel cynrychiolwyr dysgwyr, ymarferwyr addysg drydyddol, a staff y Comisiwn ei hun.


Er mai un o brif effeithiau'r Ddeddf hon yw creu stiward cenedlaethol cyntaf erioed Cymru ar gyfer y sector trydyddol ac ymchwil cyfan a chau CCAUC – y canlyniad rydym yn ei geisio drwy lunio strwythur a system newydd yw dysgwyr sy'n cael eu cefnogi'n well ac sy'n meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer dysgu, datblygiad a llwyddiant gydol oes.



STRATEGAETH


Mae'r Ddeddf yn nodi un ar ddeg dyletswydd strategol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau oddi tanynt. Mae'r rhain yn cynrychioli gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru. Hyrwyddo dysgu gydol oes.

Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau ar gyfer addysg drydyddol, hyfforddiant ac ymchwil yng Nghymru. Bydd y dyletswyddau, ar y cyd â datganiad o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru, yn amlinellu'r materion craidd y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried a'u cymryd i ystyriaeth wrth arfer ei swyddogaethau ac yn darparu set gyson o egwyddorion y bydd y Comisiwn yn gweithredu oddi tanynt.



Wedyn bydd y Comisiwn yn llunio cynllun strategol, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, a fydd yn nodi sut y bydd yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Wedyn bydd y Comisiwn yn llunio cynllun strategol, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, a fydd yn nodi sut y bydd yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.



CYLLID

Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu cyllido a'u sicrhau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc 16 i 19 oed a oedolion dros 19 oed. Bydd gan y Comisiwn bwerau i gyllido addysg uwch, prentisiaethau, ymchwil ac arloesi, a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol megis gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Bydd y Comisiwn hefyd yn gallu roi arian i awdurdodau lleol at ddibenion chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Ynghyd â phhecyn cymorth cynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr addysg uwch, bydd swyddogaethau cyllido'r Comisiwn yn galluogi dull cynhwysfawr o gefnogi dysgu drwy gydol oes, ar draws pob lefel o addysg a hyfforddiant.



GORUCHWYLIAETH

Bydd gan y Comisiwn nifer o ffyrdd i oruchwyllo darparwyr addysg drydyddol. Bydd yn ofynnol iddo gadw cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd angen i ddarparwyr gofrestru i sicrhau bod eu cyrsiau'n gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Drwy reoliadau, bydd categorïau cofrestru a bydd amodau gan bob un ohonynt, gan gynnwys amodau'n ymwneud ag ansawdd addysg, llywodraethiant a rheolaeth sefydliadau, eu cynaliadwyedd ariannol a hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg drydyddol, ynghyd â chefnogi a hybu llesiant dysgwyr a staff.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i Gytundeb Canlyniadau gyda'r cyrff y mae'n eu cyllido. Bydd Cytundebau Canlyniadau yn gytundebau rhwng darparwyr a'r Comisiwn sy'n nodi'r ffyrdd y bydd arian cyhoeddus a roddir i ddarparwyr gan y Comisiwn yn cyfrannu at y nodau strategol cyffredinol ar gyfer y system addysg drydyddol ac ymchwil.

Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro cydymffurfiaeth darparwyr â gofynion sy'n berthnasol i'w categori cofrestru, a bydd yn troi at amrywiaeth o ymyriadau er mwyn mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae darparwyr naill ai mewn perygl o fethu, neu wedi methu â chydymffurfio ag amodau parhaus eu cofrestriad. Diben ymyrraeth o'r fath yw diogelu buddiannau dysgwyr, trethdalwyr a Gweinidogion Cymru, yn ogystal ag enw da sector addysg drydyddol Cymru. Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd hefyd i fonitro cyflwr ariannol a chynaliadwyedd ariannol y sector addysg drydyddol yng Nghymru, ac i adrodd ar hyn yn flynyddol.



ANSAWDD

Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i fonitro a hyrwyddo gwelliant yn ansawdd yr addysg drydyddol a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig a/neu ddarparwyr a gyllidir. Bydd ganddo'r pŵer i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau a gwybodaeth am feini prawf a phrosesau ar gyfer asesu ansawdd rolau a chyfrifoldebau aseswyr a darparwyr, a datblygiad proffesiynol y gweithlu.

Bydd Estyn yn cadw dyletswydd i arolygu addysg bellach neu hyfforddiant. Bydd yn paratoi cynllun blynyddol sy'n nodi amcangyfrif o'r gwariant sydd ei angen i gynnal arolygiadau. Rhaid i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun. Bydd y Comisiwn yn darparu cyllid ar gyfer arfer swyddogaethau Estyn.

Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau bod asesiadau'n cael eu gwneud o ansawdd yr addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig. Bydd ganddo'r pŵer i ddynodi corff i arfer ei swyddogaethau asesu.



PRENTISIAETHAU

Mae'r Ddeddf yn sefydlu system brentisiaethau newydd sy'n benodol i Gymru sy'n hyblyg ac yn ymateb i anghenion ein dysgwyr a'n cyflogwyr, ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu economi gadarn ac arloesol yng Nghymru.

Bydd gan Weinidogion stiwardiaeth strategol o system brentisiaethau Cymru, a ariennir gan y Comisiwn, a bydd y darparwyr yn parhau'n gyfrifol am ddarparu'r prentisiaethau.

Bydd fframweithiau prentisiaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer cwblhau prentisiaeth Gymreig mewn galwedigaeth benodol.




Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi fframweithiau prentisiaeth, neu drefnu i eraill eu paratoi ar ei ran. Bydd yn ofynnol iddo gynnal a chyhoeddi cofrestr o'r fframweithiau hyn.



SICRHAU BUDDIANNAU DYSGWYR

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer diwygiadau sy'n rhoi'r dysgwr wrth wraidd y system addysg drydyddol. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn baratoi ac ymgynghori ar God Ymgysylltu â Dysgwyr a'i gyhoeddi. Bwriad y Cod hwn yw sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli, bod dysgwyr yn cael cyfle i roi eu barn i ddarparwyr am ansawdd yr addysg y maent yn ei derbyn, a'u bod yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan y darparwyr hynny. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig a'r rhai a gyllidir gan y Comisiwn gydymffurfio a'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, yn ogystal â chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Rhaid i'r Comisiwn fonitro cydymffurfiaeth â'r cod hwn.

Gall y Comisiwn hefyd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr lunio Cynllun Diogelu Dysgwyr, sy'n nodi sut y bydd darparwr yn diogelu buddiannau dysgwyr pe bai amharu ar gwrs neu gwrs yn dod i ben, a sut y gallai darparwyr helpu dysgwyr i drosglwyddo i ddarparwyr eraill. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer ymestyn y cynllun cwynion myfyrwyr ar gyfer y sector addysg uwch i'r sector addysg bellach.



HYRWYDDO CYDWEITHIO

Bydd dyletswyddau'r Comisiwn i hyrwyddo cydweithio a chydlynid mewn addysg drydyddol ac ymchwil a gydag undebau llafur yn helpu i gefnogi partneriaethau cymdeithasol a datblygu llwybrau dysgu a gyrfa cydlynol, gan gynyddu ansawdd ac effeithlonrwydd. Bydd y llwybrau hyn yn helpu i sicrhau bod gan bob dysgwr daith addysg ôl-16 ddi-dor sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn.

Bydd y Ddeddf yn hwyluso trefniadau cydweithio a hefyd i alluogi'r Comisiwn, lle bo angen, i gymryd camau er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr a dysgwyr, sicrhau bod defnydd priodol o arian cyhoeddus a diogelu enw da sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru.



DATA A GWYBODAETH

Mae'r Ddeddf yn nodi pwerau a dyletswyddau'r Comisiwn a chyrrff perthnasol eraill mewn perthynas â rhannu data a gwybodaeth. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Comisiwn ofyn am ddata (yn ymarferol, o gyrrff fel UCAS) o'r broses o gyflwyno cais i dderbyn cynnig, gan ddilyn pwerau tebyg a gyflwynwyd yn Lloegr yn 2017.



NEWIDIADAU ERAILL

Mae'r Ddeddf yn creu swyddogaethau i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn mewn perthynas â chwricwlwm lleol ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, gan ddiwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn y maes hwn yn sgil cyflwyno Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae'r Ddeddf hon yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd sy'n seiliedig ar ddibenion ar gyfer dysgwyr cyn-16 y mae disgwyl iddynt ddod i rym o fis Medi 2022.

Mae'r Ddeddf hefyd yn creu pwerau i'r Comisiwn, o dan rai amgylchiadau, gyfarwyddo awdurdodau lleol i wneud cynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth. Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i gymeradwyo unrhyw gynlluniau ad-drefnu.



Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Ddeddf gael ei deddfu?

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn 2023, ac i CCAUC gael ei ddiddymu. Penodir Cadeirydd, Prif Weithredwr a chorff llywodraethu'r Comisiwn newydd yn y cyfnod hwn. Byddai'r is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol o dan y Ddeddf yn cael ei chyflwyno gerbron y Senedd yn dilyn Cydsyniad Brenhinol.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r ddogfen hon yn grynodedb o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ac ni fwriedir iddo fod yn gynhwysfawr. Ceir rhagor o fanylion am y Ddeddf yn y [Memorandwm Esboniadol](#) a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ddeddf.



Geirfa

Fframwaith Prentisiaeth

Amlinelliad o brentisiaeth ar gyfer galwedigaeth benodol, sy'n nodi'r gofynion hyfforddi, asesu a chymwysterau ar gyfer cwblhau'r brentisiaeth.

Manyleb Prentisiaeth

Manyleb y Safonau Gofynnol ar gyfer Prentisiaethau yng Nghymru, sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer prentisiaeth Gymreig gymeradwy, a bennir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Dysgwyr/Myfyrwyr

Defnyddir dysgwyr fel term cyfunol ar gyfer pawb sy'n ymgymryd ag addysg drydyddol mewn unrhyw leoliad, ac mae'n cynnwys y rhai a ddisgrifir fel arfer fel myfyrwyr, disgyblion a phrentisiaid.

Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

Datganiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn yn nodi egwyddorion a disgwyliadau ar gyfer sicrhau bod buddiannau myfyrwyr a dysgwyr yn cael eu cynrychioli'n briodol wrth wneud penderfyniadau gan ddarparwr a'u bod yn gallu rhoi eu barn ar yr addysg y maent yn ei derbyn gan y darparwr ac ar unrhyw faterion eraill sydd o ddiddordeb iddynt.

Cynllun Diogelu Dysgwyr

Cynllun a gynhyrchir gan ddarparwyr addysg drydyddol, ac a gymeradwywyd gan y Comisiwn, sy'n nodi'r camau y bydd darparwr yn eu cymryd i ddiogelu myfyrwyr a dysgwyr pe bai amharu

ar gwrs neu gwrs yn dod i ben, a sut y bydd yn helpu myfyrwyr sy'n dymuno trosglwyddo i ddarparwr gwahanol.

Cytundeb Canlyniadau

Cytundeb rhwng y Comisiwn a chorff a gyllidir, fel rhan o delerau ac amodau'r cyllid, sy'n nodi sut y bydd y corff yn defnyddio ei gyllid i gyfrannu at gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun strategol y Comisiwn.

Addysg Drydyddol

At ddibenion y ddeddfwriaeth hon, mae addysg drydyddol yn golygu addysg uwch ac addysg bellach a hyfforddiant. Yn ôl y gyfraith, mae addysg bellach yn gyffredinol yn cyfeirio at yr holl addysg a ddarperir i bobl dros oedran addysg gorfodol (16) hyd at a gan gynnwys lefel 3 ([Safon Uwch a chyfatebol](#)). Yn gyffredinol, mae addysg uwch yn cyfeirio at addysg a ddarperir ar lefel 4 ac uwch.

Cofrestr o Ddarparwyr Addysg Drydyddol

Ffordd o reoleiddio darparwyr addysg drydyddol sy'n dymuno bod yn gymwys i gael mathau penodol o grantiau a chyllid cymorth i fyfyrwyr.

Amodau Cofrestru

Y meini prawf y mae'n rhaid i ddarparwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn gydymffurfio â hwy er mwyn dod yn ddarparwyr cofrestredig a pharhau'n ddarparwyr cofrestredig.